# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 7FED TACHWEDD, 2024**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

**NODER: Cynhelir Sesiwn Briffio i'r Aelodau am 10:00yb.**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Elwyn Edwards | Delyth Lloyd Griffiths | Annwen Hughes |
| Elin Hywel | Rhys Tudur | Linda Morgan |
| Edgar Wyn Owen | Llio Elenid Owen | Arwyn Herald Roberts |
| Beca Roberts | (Sedd Wag) | Jina Gwyrfai |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert Glyn Daniels | Elfed Powell Roberts |
| Peter Thomas | Rob Triggs |
| Gruffydd Williams | |

## Democratiaid Rhyddfrydol / Llafur (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024 fel rhai cywir.

**5. CYNLLUNIO A CHYMUNEDAU CYMRAEG** 14 - 32

I ddarparu sicrwydd bod y drefn cynllunio yn ystyried effaith datblygiadau ar gymunedau Cymraeg bregus.

**6. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** 33 - 35

Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 12 MEDI 2024**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Annwen Hughes (Cadeirydd)
Llio Elenid Owen (Is-gadeirydd)

Stephen Churchman, Robert Glyn Daniels, Jina Gwyrfai, Edgar Owen, Linda Morgan, Peter Thomas, Beca Roberts, Arwyn Herald Roberts, Elfed Powell Roberts, Rob Triggs a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 5:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd (Trafnidiaeth)), ac Ceri Hughes Thomas (Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 6:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd (Trafnidiaeth)) a Rhian Wyn Williams (Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 7:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd) a Roland Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 8:**
Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC) a Peter John Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd).

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Elin Hywel a Delyth Lloyd Griffiths.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi.

4. **COFNODION**

   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Mai 2024, fel rhai cywir.

5. **FFIOEDD PARCIO**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Adran Amgylchedd, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd (Trafnidiaeth) a'r Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd.

Eglurwyd bod yr Adroddiad yn cynnwys addasiadau i drefniadau ffioedd parcio er mwyn cydymffurfio â chynlluniau arbedion y Cyngor a mynd i'r afael â gorwariant o fewn y gwasanaethau parcio Atgoffwyd bod dau o'r prosiectau a welwyd yn yr adroddiad (Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd a Chynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol a Thocynnau Parcio Lleol meysydd parcio £5 y flwyddyn) eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth y Cabinet.

Tynnwyd sylw at gynllun i Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor gan dynnu sylw mai'r oriau gorfodaeth presennol yw rhwng 10:00yb ac 4:30yh. Eglurwyd y bwriedir ymestyn yr oriau gorfodaeth i 09:00yb i 05:00yh. Atgoffwyd mai dyma oedd argymhelliad gwreiddiol y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn 2021.

Nodwyd mai'r pedwerydd cynllun sydd ynghlwm a'r adroddiad yw Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2. Eglurwyd bod y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno er mwyn cyfarch cynnydd mewn chwyddiant. Tynnwyd sylw at her wrth gyfarch cynnydd chwyddiant er mwyn sicrhau bod ffioedd addas yn cael eu cyflwyno ar gyfer unrhyw un sydd yn dymuno talu ag arian parod, heb orfod canfod llawer o arian mân. Cadarnhawyd mai'r trefniant arferol yw aros ychydig o flynyddoedd cyn addasu ffioedd parcio yn unol â chwyddiant er mwyn sicrhau bod ffioedd parcio yn ymarferol i ddefnyddwyr. Cydnabuwyd bod hyn yn arwain at cryn dipyn o gynnydd ond bod yr addasiadau i brisiau yn cael eu gwneud yn llai aml. Cadarnhawyd bod yr addasiadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn gynnydd o oddeutu 30%-40% gan sicrhau na fydd angen eu haddasu ymhellach hyd at y flwyddyn 2028/29.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cytunwyd gyda'r cynlluniau i gynyddu ffioedd parcio ym Mhen y Gwryd ac anogwyd yr adran i fuddsoddi mewn lleoliadau cyffelyb gan ei bod yn cael defnydd cyson. Gofynnwyd am fwy o wybodaeth am Ffioedd Parcio Band 1-3 ar gyfer arosiadau hir.

Anghytunwyd gyda chynlluniau i addasu oriau gorfodaeth meysydd parcio. Ystyriwyd byddai hyn yn cael gormod o effaith negyddol ar drigolion a busnesau lleol gan arwain at ddirwyon. Nodwyd ei fod yn debygol y byddai cynyddu cost tocyn parcio blynyddol i £145 yn golygu na fyddai unigolion yn ei brynu.

Tynnwyd sylw bod cyfnodau amser mewn ffioedd parcio yn addasu mewn rhai achosion. Trafodwyd enghraifft bod £2 am gael parcio am 1 awr yn addasu i fod yn £2.50 am gyfnod o 4 awr. Ystyriwyd os bydd hyn yn atal pobl rhag talu i barcio oherwydd nad oeddent yn defnyddio'r maes parcio am gyfran helaeth o'r cyfnod hwnnw. Er hyn, cytunodd Pennaeth yr Adran bod y cynnydd hwn mewn amser ar gyfer mannau parcio arhosiad hir yn un o awgrymiadau grŵp tasg a gorffen y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn 2019. Eglurwyd bod y grŵp yn teimlo byddai hyn yn cefnogi busnesau lleol oherwydd byddai gan bobl amser, ac yn gwario arian mewn busnesau lleol.

Nodwyd nad oedd gwybodaeth wedi cael ei gynnwys ar fysiau yn parcio mewn meysydd parcio. Nodwyd byddai'r Adran yn cyflwyno gwybodaeth ar hyn yn y dyfodol gan nodi bod defnydd bysiau mewn meysydd parcio ar gynnydd.

Gofynnwyd i'r Adran ail-ystyried eu trefniadau wrth gynyddu prisiau parcio gyda chyfraddau chwyddiant er mwyn sicrhau nad ydi costau parcio yn mynd i fyny ar gyfradd uchel wrth eu haddasu. Tynnwyd sylw bod y trefniadau presennol yn arwain at gynnydd mawr mewn costau parcio. Mewn ymateb i'r sylwadau, cydnabuwyd bod ffioedd parcio yn cynyddu ar lefel uwch. Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet bod hyn yn her ar gyfer yr adran oherwydd bod targedau incwm mewnol yn cynyddu gyda chwyddiant ac mae'r rhain yn cael eu methu nes mae'r ffioedd yn cynyddu. Pwysleisiwyd ei fod yn anodd addasu'r prisiau yn amlach oherwydd byddai ffioedd parcio yn symiau anarferol ond rhagdybir na fydd hyn yn gymaint o broblem yn y dyfodol a bydd modd cynyddu ffioedd yn flynyddol wrth i daliadau cerdyn neu ffôn ddod yn fwy cyffredin. Tynnwyd sylw byddai hyn hefyd yn lleihau niferoedd o achosion difrodi peiriannau talu ac arddangos ond bod angen gofal parhaus i sicrhau cyfle cyfartal i unrhyw un sydd yn dymuno talu gydag arian parod.

Eglurodd y Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd bod ffi o 5c ar ddefnyddwyr ap i dalu am barcio. Ymhelaethwyd bod y ffi yn hwn yn un cyffredinol am ddefnyddio'r ap. Cadarnhawyd bod modd derbyn neges i gadarnhau taliad, neu i rybuddio bod y cyfnod parcio ar fin dod i ben, gan gadarnhau bod y rhain yn gostau ychwanegol i unrhyw un sydd yn dewis eu derbyn. Pwysleisiwyd nad oes cynnydd yn y ffioedd hyn wrth i ffioedd parcio gael eu haddasu. Ymhellach, mewn ymateb i sylwadau nad oes modd defnyddio'r ap ar brydiau, cadarnhaodd bod swyddogion, a'r cwmni sydd yn gweithredu'r ap, yn cael neges pan mae unrhyw safle yn profi trafferthion. Eglurwyd bod modd gosod bocsys er mwyn gwella wi-fi mewn rhai ardaloedd er mwyn sicrhau bod yr ap yn gweithio. Cadarnhawyd bod yr Adran yn cydweithio gyda'r cwmni yn gyson er mwyn sicrhau bod y trafferthion yn cael eu datrys mor fuan â phosib.

Mewn ymateb i ymholiad ar ddefnydd y cyhoedd o fannau parcio rhad ac am ddim mewn siopau a chanolfannau, cadarnhawyd bod hyn yn cael ystyriaeth fanwl gan yr Adran, er mwyn sicrhau bod unrhyw un sydd angen lle parcio ar gyfer defnyddio'r cyfleusterau hynny yn gallu gwneud hynny yn ddidrafferth.

Cafwyd nifer o sylwadau am geisio sicrhau nad yw'r cyhoedd yn cael eu heffeithio yn ormodol gyda'r addasiadau hyn, gan fanteisio ar wariant ymwelwyr. Pwysleisiwyd gan Bennaeth yr Adran bod hyn yn cael ystyriaeth ond mae'n broses heriol iawn oherwydd mae nifer o leoliadau yn cael eu defnyddio'n gyson gan ymwelwyr ac trigolion lleol. Er hyn, ystyriwyd bod rhai ardaloedd yn defnyddio mannau parcio oherwydd nad oes modd parcio tu allan i dai, ac byddai sefyllfaoedd o'r fath yn derbyn ystyriaeth fanwl.

Ystyriwyd nad oedd sylwadau'r Adran ar gydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mor drwyadl ag adrannau eraill y Cyngor. Gofynnwyd i'r adran fanylu ar y wybodaeth hon i'r dyfodol er mwyn sicrhau bod unigolion o grwpiau cymdeithasol economaidd gwahanol yn cael eu gwarchod a'u cefnogi. Mewn ymateb i'r sylwadau, cydnabuwyd bod hyn yn fater all gael ei adrodd yn well i'r dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad ar gynllun 'Arosfan' sydd yn cynnig mannau parcio a chyfleusterau dros nos i gartrefi modur, cadarnhawyd na fyddai'r addasiadau ffioedd hyn yn effeithio ar y cynllun. Eglurwyd ei fod yn gynllun peilot ar hyn o bryd sydd yn cynnig y gwasanaeth am £16.50 y noson, drwy beiriant talu ac arddangos arferol (gydag arian parod neu gerdyn/ffôn symudol). Ymhelaethwyd bod sylwadau cymysg wedi ei dderbyn ar y peilot hyd yma, a bod modd derbyn incwm ychwanegol os bydd mannau parcio ychwanegol yn cael eu sefydlu i'r dyfodol. Diweddarwyd bod dau leoliad 'Arosfan' mewn defnydd yn Nwyfor ac Arfon ar hyn o bryd ac mae'r Adran yn ymchwilio am leoliad addas yn ardal Meirionnydd er mwyn treialu'r cynllun yn yr ardal honno hefyd.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cabinet:**

- **Dylid ystyried cynyddu ffioedd parcio yn flynyddol neu bob dwy flynedd gan roi ystyriaeth i sefyllfa chwyddiant;**
- **Ni ddylid addasu’r trefniadau gorfodaeth yn y meysydd parcio arhosiad byr oherwydd yr effaith ar yr economi leol.**
- **Dylid ystyried cynyddu ffioedd ymhellach ym meysydd parcio mewn ardaloedd twristiaeth penodol megis Pen y Gwryd.**
- **Dylid ystyried cynyddu ffioedd safleoedd Arosfan yn flynyddol.**

**6. DATBLYGIADAU YN Y MAES CLUDIANT CYHOEDDUS**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Adran Amgylchedd, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd (Trafnidiaeth) a’r Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd.

Eglurwyd bod newid cyson wedi bod ym maes cludiant cyhoeddus ers nifer o flynyddoedd yn sgil addasiadau deddfwriaethol ac esblygiad blaenoriaethau’r Cyngor, Trafnidiaeth i Gymru ac Llywodraeth Cymru. Ymhelaethwyd bod yr Adran wedi derbyn canmoliaeth gan y Llywodraeth am y gwaith a gyflawnwyd yn y maes. Ymfalchïwyd bod gwaith o safon uchel wedi cael ei gyflawni ac bod trigolion yn gweld buddion o ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

Tynnwyd sylw at natur gymhleth tirwedd y Sir, gan egluro bod 7 gwahanol fath o wasanaethau cludiant cyhoeddus ar gael gyda gwahanol brosesau ariannu. Manylwyd bod rheolaeth y Cyngor dros y prosiectau hyn yn amrywio yn unol â chontractau gyda phartneriaid. Cydnabuwyd bod dibyniaeth ar arian y tu hwnt i reolaeth y Cyngor yn risg i’r gwasanaeth.

Pwysleisiwyd bod ‘Rhwydwaith cludiant cyhoeddus sy’n cwrdd ag anghenion cymunedau Gwynedd’ wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth ‘Gwynedd Werdd’ fel rhan o Gynllun y Cyngor 2023-28. Nodwyd bod yr Adran yn gweithio i addasu gweithdrefnau presennol yn barhaus er mwyn cyflawni’r flaenoriaeth hon. Diweddarwyd bod cytundebau gwasanaethau cludiant cyhoeddus wedi cael eu diweddaru ym mhob ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda gwasanaethau newydd mewn lle. Manylwyd bod gwasanaethau Caernarfon a Dyffryn Nantlle wedi eu diweddaru ym mis Gorffennaf 2023, Meirionnydd wedi ei ddiweddaru ym mis Chwefror 2024 a gwasanaethau Bangor a Dyffryn Ogwen wedi eu diweddaru ym mis Mehefin 2024.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:

Croesawyd y cyfle i ymgysylltu gyda’r Adran wrth iddynt ystyried rhwydwaith a threfniadau yn Nwyfor i’r dyfodol. Mewn ymateb i ymholiad ar sut mae’r Adran yn monitro defnydd wrth ystyried newid gwasanaethau, cadarnhaodd y Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd bod peiriant ar pob bws yn monitro faint o bobl sydd yn defnyddio’r gwasanaethau penodol ac i ble maent yn teithio. Ymhelaethwyd bod Swyddogion yn gallu defnyddio’r wybodaeth hyn wrth ystyried unrhyw addasiad i gylchdeithiau’r gwasanaeth.

Diolchwyd i’r adran am wasanaeth cyfleus a dibynadwy yn ardal Dyffryn Nantlle. Mewn ymateb i ymholiad am dalu gyda cherdyn drwy ddefnyddio technoleg ‘Tapio ‘Mlaen/Tapio Ffwrdd’, cadarnhaodd y Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd bod modd gwneud hyn. Ymhelaethwyd bod cost isafswm y defnydd o’r technoleg hwn yn £2.20 hyd at uchafswm o £6.50 y diwrnod, os oes defnydd o’r gwasanaeth wedi ei wneud.

Mewn ymateb i enghraifft o sefyllfa ble mae amserlen y gwasanaeth yn anghyfleus i rai defnyddwyr, cydnabodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd bod yr heriau hyn yn codi mewn

rhai amgylchiadau ond bod y gwasanaeth yn gweithio ar gyfer canran uchel o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mewn ymateb i ymholiad i ymholiad am ystyriaeth o ddefnydd myfyrwyr o’r gwasanaethau cludiant cyhoeddus pwysleisiwyd bod y rhwydwaith yn un cymhleth iawn. Diolchodd y Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd i Drafnidiaeth i Gymru am eu cydweithrediad er mwyn sicrhau rhwydwaith defnyddiol i ardaloedd gwledig y Sir. Ymhelaethwyd bod nifer o bartneriaethau a rhwydweithiau yn rhan o’r gwasanaeth cludiant cyhoeddus a bod trafodaeth barhaus gyda hwy i gyd yn allweddol i lwyddiant y gwasanaeth.

Rhannwyd enghreifftiau o rai ardaloedd sydd yn teimlo bod safon y gwasanaeth wedi dirywio yn dilyn diwygiadau i’r gwasanaeth. Teimlwyd bod diffyg ymgysylltu digonol gyda defnyddwyr gwasanaeth wedi arwain at doriad yn amlder y gwasanaeth gan adael rhai cymunedau heb gludiant cyhoeddus ar rai adegau megis wedi 5yh neu ar ddyddiau Sul. Mewn ymateb i’r pryderon, cydnabuwyd bod angen gwella’r trefniadau ymgysylltu presennol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth ac Aelodau Etholedig yn cael mewnbwn i addasiadau posib amserlenni cludiant cyhoeddus. Mewn ymateb, pwysleisiwyd nad yw newid gwasanaethau yn broses syml oherwydd cymhlethdod y rhwydwaith a’r partneriaid sydd ynghlwm iddo. Sicrhawyd bod y mwyafrif o drigolion a defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo bod y gwasanaeth wedi gwella yn gyffredinol yn y misoedd diwethaf.

Manylodd y Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd (Trafnidiaeth) ar y trefniadau ymgysylltu sydd yn cael ei ddefnyddio yn bresennol gan nodi bod nifer o rwystrau yn codi. Manylwyd bod angen asesu dyheadau lleol ac ymhellach wrth ymgysylltu am wasanaethau, gyda rhai defnyddwyr yn manteisio am y gylchdaith gyfan ac eraill yn teithio ar ran ohono. Nodwyd bod angen pwyso a mesur unrhyw ymgynghoriad gyda sicrhad bod gwasanaethau yn ariannol hyfyw ac yn sicrhau'r synnwyr gorau er lles yr amgylchedd. Cydnabuwyd nad oes modd sicrhau bod dyheadau pob unigolyn yn cael eu cyfarch. Fodd bynnag, sicrhawyd nad ydi cymunedau sydd ddim ar y cylchdeithiau yn cael eu diystyru a threfnwyd i gynnal sgwrs i ystyried y cymunedau hynny gydag Aelodau Etholedig yn rhannu mewnbwn.

Llongyfarchwyd yr adran am gyflwyno gwasanaethau TrawsCymru a Fflecsi. Ymhelaethwyd y credir bod y gwasanaethau hyn yn derbyn nifer o ddefnyddwyr a'i fod yn llenwi’r bylchau sy’n codi o’r gwasanaeth bws traddodiadol. Rhannwyd bod trigolion sydd yn elwa o’r gwasanaethau hyn yn credu ei fod yn gyfleus iawn ac yn gymorth mawr i unigolion sydd â thrafferthion symudol ac anhwylderau corfforol i gyrraedd apwyntiadau. Mewn ymateb i’r sylwadau hyn, diolchodd yr Aelod Cabinet i’r holl bartneriaid am sicrhau gwasanaethau o safon i drigolion Gwynedd gan obeithio bydd trigolion yn parhau i wneud mwy o ddefnydd ohonynt yn hytrach na cheir personol i’r dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad am ymestyn gwasanaethau Fflecsi, cadarnhawyd bod modd i wneud hynny yn ddibynnol ar grantiau i’r dyfodol. Cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol mai’r dyhead byddai i ddefnyddio’r gwasanaeth hon i lenwi’r bylchau yn y cylchdeithiau.

Mewn ymateb i gwestiwn am heriau i sicrhau bod gwasanaethau yn mynd allan i dendr, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod hyn yn heriol iawn oherwydd bod cwmnïau cludiant cyhoeddus wedi wynebu nifer o heriau dros y blynyddoedd diwethaf megis lleihad mewn defnyddwyr gwasanaeth a chostau cynyddol. Er hyn, mynegwyd balchder bod pob gwasanaeth ar y rhwydwaith yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Datganwyd pryderon am gostau ychwanegol i’r Adran wrth iddynt fuddsoddi mewn technoleg newydd er mwyn cyrraedd targedau i leihau allyriadau carbon. Mewn ymateb,

cydnabodd y Pennaeth Adran bod buddsoddiad mewn technoleg yn sylweddol gan ei fod yn newydd, ond rhagdybir i gostau leihau yn y dyfodol wrth iddo gael ei ddefnyddio'n fwy cyson. Ymhellach, cadarnhawyd bod yr Adran wedi derbyn grantiau er mwyn cynnal bysiau trydan ac mae gwaith yn mynd rhagddo i monitro ffioedd ei gynnal er mwyn cymharu gyda chostau bysiau tanwydd. Rhannwyd enghraifft o arbediad mae'r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd drwy ddiweddaru'r fflyd ceir i foduron trydan yn raddol, gan nodi bod y ceir trydan oddeutu £350 yn rhatach i'w cynnal pob mis.

Mewn ymateb i ymholiadau am ddiweddariadau yn ardal Arfon, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod cytundebau wedi cael eu cytuno arnynt yn ddiweddar a bydd trafodaethau am addasiadau yn cael eu cynnal o fewn y cyfnod cytundebol o hyd at 4 mlynedd. Nodwyd bod ymgynghori yn elfen bwysig o hyn ond eglurwyd bod cwmnïau mawr yn teyrnasu ar y maes ac yn cadarnhau trefniadau yn y pen draw.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

**(ii) Argymell i'r Adran Amgylchedd:**

- **y dylid cynnwys yr Aelodau Lleol mor fuan â phosib wrth ystyried newidiadau i wasanaethau bws;**
- **bod angen cryfhau'r trefniadau ymgynghori gyda chymunedau.**

## 7. GWASANAETHAU GWASTRAFF AC AILGYLCHU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth yr Adran Amgylched a'r Pennaeth Cynorthwyol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y gwasanaeth hwn wedi cael ei drosglwyddo o'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC yn ôl yn Hydref 2022 a bod newidiadau mawr wedi cael eu gweithredu i wella gweithrediad y gwasanaeth o fewn yr Adran Amgylchedd. Cydnabuwyd bod nifer o heriau wedi codi yn y cyfnod trosglwyddo, gan arwain at drafferthion casglu a chylchdeithiau, ond credir bod y gwasanaeth yn sefydlog erbyn hyn.

Cyfeiriwyd at dargedau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod 70% o holl wastraff Awdurdodau Lleol yn cael ei ailgylchu erbyn Mawrth 2025. Pwysleisiwyd bod hyn yn darged heriol iawn ac bod gwaith yn mynd rhagddo i geisio ei gyrraedd. Eglurwyd bod y Cyngor yn cyrraedd targedau cyfredol y Llywodraeth o ailgylchu 64% o wastraff ac yn hyderus bydd fframweithiau'r Adran yn arwain at gynnydd yn y canran hwn. Tynnwyd sylw bod trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn awgrymu gall Awdurdodau Lleol cael eu cosbi'n ariannol os na bydd y targed o 70% yn cael ei gyrraedd.

Eglurwyd bod dwy ffactor wedi arwain at gorwariant o fewn y gwasanaeth yn ddiweddar. Manylwyd bod rhain yn cynnwys lefelau salwch y gweithlu yn ogystal â goramser. Nodwyd bod cymysgedd o salwch byr dymor ac hir dymor wedi arwain at hyn, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cydweithio gyda cwmni Byw'n Iach er lles y gweithwyr. Diolchwyd i'r gweithlu am eu ymateb cadarnhaol i'r galw am newid yn y ffordd o weithio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cyflawni o fewn y gyllideb. Diolchwyd hefyd i holl staff y gwasanaeth am eu hagwedd gadarnhaol a'u parodrwydd i gyflawni'r gwaith o safon uchel er budd holl drigolion y Sir.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i bryderon am ddirwyon gan Lywodraeth Cymru os na fydd 70% o wastraff yn cael ei ailgylchu, sicrhaodd y Pennaeth Cynorthwyol nad oes unrhyw Awdurdod Lleol

wedi derbyn dirwy hyd yma, er bod rhai wedi methu cyrraedd targedu. Pwysleisiwyd nad oes cadarnhad pendant o'r ddirwy hwn wedi cael ei gyhoeddi a chredir bydd y Llywodraeth yn edrych ar dargedau Awdurdodau Lleol dros y blynyddoedd er mwyn gweld os oes ymdrech wedi ei wneud er mwyn cyrraedd y lefelau a ofynnir. Manylwyd bod Gwynedd wedi bod yn cyrraedd targedau'r Llywodraeth yn gyson dros y blynyddoedd ac yn cydweithio'n agos gyda swyddogion felly ni ragwelir bydd Gwynedd yn derbyn dirwy os na fydd y lefel ailgylchu o 70% yn cael ei gyfarch.

Ymholiad ar gynlluniau'r Adran i godi ffioedd ar gwaredu rhai eitemau o wastraff megis teiars, rwbel ac asbestos ac ystyriwyd os byddai hyn yn debygol o arwain at fwy o achosion tipio slei bach. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Adran Cynorthwyol bod oddeutu 80 tunnell o deiars yn cyrraedd y canolfannau ailgylchu yn flynyddol ac mae'n costio tua £20,000 er mwyn eu prosesu. Pwysleisiwyd bod gweithdrefnau mewn lle o fewn yr Adran Priffyrdd, Bwrdeistrefol ac YGC i ddelio gyda achosion tipio slei bach, ac os bydd y ffioedd hyn yn cael eu cyflwyno, bydd gwaith yn mynd rhagddo i fonitro'r effaith y bydd yn ei gael ar y prosesau hynny, gan gydnabod bydd cynnydd mewn niferoedd tipio slei bach yn risg cysylltiol.

Cyfeiriwyd at gynlluniau a drafodwyd mewn cyfarfod blaenorol, o gyflwyno sachau hessian i ddal gwastraff ailgylchu yn hytrach na'r cartiau plastig presennol. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Adran Cynorthwyol bod yr Adran yn awyddus i treialu'r sachau hyn mewn rhai ardaloedd oherwydd eu bod yn dal mwy o wastraff tra'n cymryd llai o le ac yn lanach. Cadarnhawyd bod yr Adran wedi ystyried ei dreialu eisoes ond nad oedd hyn wedi cael ei gyflawni oherwydd yr etholiad cyffredinol diweddar. Nodwyd bod yr Adran yn parhau i fod yn awyddus i'w dreialu ac yn y broses o ganfod ardal addas i wneud hynny.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at feddalwedd newydd sydd wedi cael ei chyflwyno i'r lorïau lyn ddiweddar a gofynnwyd i'r Adran sut ymateb a gafwyd gan y gweithwyr i'r defnydd o gamerâu o fewn y lorïau. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Adran Cynorthwyol bod y gweithwyr wedi bod yn ganolog i'r sgwrs a nodwyd bod y camerâu yn ddull o helpu'r gweithwyr yn hytrach na'u monitro. Pwysleisiwyd mai pwrpas y camerâu yw cadarnhau i ble mae'r lorïau wedi bod yn ystod y cylchdeithiau. Ymhelaethwyd bod modd ail-edrych ar y camerâu os bydd ymholiad neu gŵyn yn codi er mwyn asesu'r sefyllfa - gan lwyddo i allu cadarnhau os oedd achwynwyr wedi gosod eu cartiau ailgylchu mewn man addas ac ati. Cydnabuwyd bod ymateb negyddol i'r camerâu ymysg gweithwyr yn y lle cyntaf, ond erbyn hyn maent yn eu cefnogi oherwydd maent yn gweld y budd mae'n ei wneud i effeithlonrwydd y gwasanaeth ac y gellir delio gydag ymholiadau'n rhwyddach.

Mewn ymateb i ymholiad am drefniadau ailgylchu busnesau, cydnabuwyd y gallai mwy wedi gwneud er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r trefniadau ailgylchu angenrheidiol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer busnesau. Eglurwyd nad oedd yr Adran yn llawn barod ar gyfer y rheoliadau newydd hyn ond bod gwaith yn cael ei gyflawni erbyn hyn er mwyn cefnogi busnesau.

Gofynnwyd os oes digon o ddeunyddiau ailgylchu yn cael ei gasglu i wneud elw er mwyn cyfrannu at gostau'r Cyngor. Holwyd  os oedd gwastraff gardd yn cael ei gompostio a'i gynnig yn ôl i drigolion er eu defnydd. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Adran Cynorthwyol bod yr Adran yn ddibynnol ar y farchnad er mwyn gweld faint o arian a dderbynnir am y deunyddiau. Er hyn, nodwyd yn gyffredinol nad oes digon yn cael ei gasglu er mwyn creu digon o elw. Eglurwyd bod yr Adran yn buddsoddi mewn canolfannau prosesu newydd yn Ffridd Rasus, Harlech a Caergylchu, Caernarfon er mwyn gwella ansawdd y deunyddiau gyda'r gobaith byddent yn cael eu prynu gan gwmnïau allanol am fwy o elw i'r dyfodol. Yn yr un modd, cadarnhawyd bod partneriaeth

wedi ei sefydlu gyda Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn compostio gwastraff gardd. Nodwyd hefyd bod darparwr preifat hefyd yn derbyn cyfran ohonno. Eglurwyd mai mater i'r darparwr oedd beth a wneir gyda'r compost.

Cadarnhawyd bod cost gwaredu gwastraff gweddilliol oddeutu £4miliwn ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw bod treth newydd ar allyriadau carbon yn debygol o gael ei gyflwyno erbyn 2028 gan arwain at gynnydd o oddeutu £0.6miliwn - £1.5miliwn i'r Cyngor. Mewn ymateb i gwestiwn ar sut bydd y cynnydd ariannol hwn yn cael ei gyfarch, eglurodd y Pennaeth Adran Cynorthwyol bod y Cyngor mewn partneriaeth hirdymor gyda Pharc Adfer. Pwysleisiwyd mai'r dull gorau o leihau'r risg ariannol hwn yw sicrhau bod trefniadau ailgylchu cadarn mewn lle gan arwain at lai o wastraff gweddilliol yn y biniau gwyrdd.

Ymhelaethodd y Pennaeth Adran bod gwaith angen ei wneud er mwyn newid meddylfryd ac addysgu trigolion ar faterion ailgylchu. Adroddwyd bod 57% o wastraff a welir yn y bin gweddilliol gwyrdd yn ddeunyddiau a all ei ailgylchu.

Mewn ymateb i bryderon bod tai gwyliau, lletyau gwyliau ac AirBnB yn arwain at wastraff yn cael ei adael am ddyddiau cyn y diwrnod casglu, cadarnhaodd y Pennaeth Adran Cynorthwyol bod ffioedd yn cael ei godi ar rhain fel gwastraff masnachol. Anogwyd unrhyw Aelod i ddod i gyswllt gyda'r gwasanaeth os oes trafferthion o'r fath yn codi'n eu wardiau.

Llongyfarchwyd y gwasanaeth am eu gwaith gan gadarnhau ei fod o safon uchel ac nid yw Aelodau Lleol yn derbyn unrhyw sylwad negyddol amdano erbyn hyn. Diolchwyd i'r holl weithwyr am eu gwaith caled. Diolchwyd hefyd i staff y swyddfa am ymateb i e-byst am bryderon yn gyflym ac ystyrlon.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

**8. GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (RHEOLI CŴN)**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Rheolwr Gwasanaethau Stryd.

Eglurwyd bod gorchymyn rheoli cŵn wedi bodoli ers 2013 a'i fod erbyn hyn wedi ei ymestyn hyd at Awst 2027. Ymhelaethwyd bod gorchymyn yn ymwneud â pheidio â chlirio neu godi baw ci, gadael i gi fynd ar dir lle mae cŵn wedi ei gwahardd a pheidio rheoli a chadw ci ar dennyn pan ofynnir i'r person wneud hynny gan swyddog awdurdodedig.

Cadarnhawyd bod yr Adran yn ymwybodol bod y materion hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd gan nodi bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gynnal yn ddiweddar, yn unol a'r gofyniad statudol i adnewyddu'r gorchymyn pob 3 mlynedd. Pwysleisiwyd bod 1100 o ymatebion wedi eu derbyn o'r ymgynghoriad hwn, o'i gymharu â 75 ymatebiad i ymgynghoriad yr Adran ar strategaeth llifogydd yn ddiweddar.

Eglurwyd bod gorfodaeth o fewn y gwasanaeth hon wedi bod yn heriol yn y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn marwolaeth sydyn aelod allweddol o staff. Cydymdeimlwyd gyda'r gweithwyr am eu colled. Pwysleisiwyd bod materion staffio wedi gwella erbyn hyn ac mae niferoedd cosbau ar gynnydd a phresenoldeb y tîm yn fwy amlwg wrth iddynt ymdrin â nifer o agweddau gorfodaeth megis graffiti a baw cŵn.

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Adran wedi cyfuno tri gwasanaeth er mwyn sefydlu Gwasanaeth Edrychiad Stryd. Mae'r rhain yn cynnwys y timoedd gorfodaeth, glanhau strydoedd a thacluso Ardal Ni. Nodwyd bod y timau yn cydweithio'n agos ac yn effeithiol er mwyn addysgu trigolion, gosod biniau baw cŵn, arwyddion a thacluso'r strydoedd. Ymhelaethwyd bod addysgu a chynnal ymgyrchoedd yn agwedd cyson o waith rheolaeth cŵn a chyfeiriwyd at nifer o brosiectau megis yr arwyddion coch a welir mewn cymunedau dros y blynyddoedd diwethaf. Adroddwyd bod ffocws y gwasanaethau yn addasu yn dymhorol gan nodi eu bod wedi bod yn cydweithio gyda'r gwasanaethau morwrol dros yr haf er mwyn sicrhau bod ymwelwyr yn ymwybodol o'r rheoliadau cŵn gan baratoi i addasu'r pwyslais ar strydoedd a pharciau dros y gaeaf.

Adroddwyd bydd yr Adran yn edrych ar y sefyllfa rheolaeth cŵn yn ehangach i'r dyfodol er mwyn gweld sut mae cydweithio yn draws adrannol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn mynd i'r afael a'r mater. Cyfeiriwyd at gynlluniau newydd sydd yn cael eu datblygu gan Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd a fyddai'n darparu arweiniad i'r Awdurdodau Lleol yn fuan.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd bod y gwasanaeth yn cydweithio gyda milfeddygon. Nodwyd bod y gwasanaeth yn darparu pecynnau gwybodaeth a phosteri ar eu cyfer a'i fod yn elfen bwysig o rannu gwybodaeth gyda perchnogion cŵn am y rheoliadau sydd mewn grym. Diolchwyd i'r milfeddygon am eu parodrwydd i gydweithio.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd bod pecynnau bychan o fagiau baw ci ar gael i Aelodau Etholedig ac anogwyd iddynt ddod i gyswllt gyda'r gwasanaeth os ydynt yn dymuno eu derbyn er mwyn eu defnyddio o fewn eu cymunedau. Rhannwyd enghreifftiau gan Aelod sydd yn derbyn y pecynnau hyn gan yr Adran ac maent yn cael defnydd rheolaidd gan berchnogion cŵn yn ei ward, gan nodi nad ydi torri rheoliadau cŵn pob amser yn fwriadol a bod rhoi'r bagiau hyn i berchnogion yn eu helpu i gydymffurfio os ydynt wedi anghofio dod a'r bagiau gyda nhw. Tynnwyd sylw bod sicrhau bod y biniau baw cŵn yn cael eu gwagio yn rheolaidd yn rhan bwysig o'r cydweithrediad yma.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth am sut mae'r gwasanaeth yn addasu'r lleoliadau a dargedir dros y gaeaf a pha ymgyrchoedd bydd mewn lle. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd bod nifer o ymgyrchoedd dros y gaeaf gan gynnwys posteri, cydweithredu gyda'r wasg a gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol hyd at ddwywaith yr wythnos dros y misoedd nesaf. Ychwanegwyd bydd pwyslais yn cael ei roi ar y cosbau gellir ei dderbyn drwy beidio â chydymffurfio gyda rheoliadau. Adroddwyd bod y gwasanaeth yn chwilio am ddatrysiadau newydd yn gyson megis cydweithrediad gydag ysgolion ac arwyddion coch i ddenu sylw. Anogwyd unrhyw un gyda syniadau am sut gellir codi ymwybyddiaeth bellach, i ddod i gyswllt gyda'r gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
- **Argymell bod yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC yn cysylltu gyda Chynghorwyr i gynnig cyflenwad o'r pecynnau bagiau baw cŵn i'w defnyddio yn eu cymunedau.**

**9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu.

Cafwyd diweddariad ar y materion i'w craffu. Nodwyd yn dilyn derbyn cais i'r Pwyllgor flaengraffu yr eitem 'Ffioedd Parcio' yn y cyfarfod yma, cysylltwyd gyda'r adrannau perthnasol er mwyn adnabod eitem i'w ail-raglennu. Eglurwyd yr ymgynghorwyd â'r Cadeirydd yn dilyn derbyn ymatebion gan yr adrannau.

Awgrymwyd y dylid ail-raglennu'r eitem 'Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan' i gyfarfod 20 Mawrth 2025. . Nodwyd byddai ail-raglennu'r eitem i gyfarfod mis Mawrth yn rhoi cyfle i'r ffrwd gwaith yma ddatblygu ymhellach gan roi mwy o gyfle i graffu ychwanegu gwerth.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer 2024/25.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 15:00yp

____________________________________

CADEIRYDD

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 7 Tachwedd 2024 |
| **TEITL** | Cynllunio a Chymunedau Cymraeg |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Sicrwydd o ran gweithrediad |
| **AWDUR** | Gareth Jones, Pennaeth Cynorthwyol |
| **AELOD CABINET** | |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1 Mae angen sicrwydd bod y drefn gynllunio yn ystyried o ddifri effaith datblygiadau (mawr a man) ar gymunedau Cymraeg bregus.

1.2 Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol – 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' yn nodi:

- Bydd Datganiad Iaith yn angenrheidiol er mwyn cael mwy o wybodaeth am ddatblygiad sy'n cyrraedd trothwyon maen prawf 1 a – c, Polisi PS 1.
- Yn unol â maen prawf 2, Polisi PS 1, bydd angen Asesiad Effaith Ieithyddol ar gyfer datblygiad mawr annisgwyl na chafodd ei nodi na'i ragweld yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

1.3 Drwy'r Canllaw, ceir arweiniad i ymgeiswyr o ran y fethodoleg ar gyfer paratoi datganiad ac asesiad effaith.

1.4 O ystyried mai'r ymgeiswyr sydd yn gyfrifol am ddarparu Datganiad Iaith / Asesiad Effaith Ieithyddol, dylid craffu os ydynt yn cael eu cyflwyno yn unol â'r fethodoleg yma. Hefyd, a oes ystyriaeth yn cael ei roi i effaith gronnol ceisiadau ar gymunedau Cymraeg bregus pan fo'r Cyngor yn ymdrin â'r datganiadau / asesiadau effaith wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

2.1 Pa broses sydd yn cael ei ddilyn pan fo datganiad iaith / asesiad effaith ieithyddol yn cael ei gyflwyno?

2.2 Sut mae cynnwys/safon y datganiadau iaith / asesiadau effaith ieithyddol yn cael ei asesu?

2.3 Beth yw mewnbwn yr Uned Iaith?

2.4 Beth sydd mewn lle i sicrhau bod effaith cronnol datblygiadau yn cael ei ystyried?

## 3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Tynnir sylw'r Pwyllgor Craffu Cymunedau at y materion allweddol isod:

- Mae'r ystyriaeth y gall Cyngor Gwynedd ei roi i'r iaith Gymraeg o fewn y system gynllunio wedi ei gyfyngu o ganlyniad i ofynion cyfreithiol a'r hyn a nodir ym mholisi cynllunio cenedlaethol a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 (Llywodraeth Cymru).
- Credir ei bod yn amserol i Lywodraeth Cymru ystyried adolygu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 (Llywodraeth Cymru) os am sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth briodol mewn awdurdodau Cynllunio ar draws Cymru.
- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn) a'r Canllaw Cynllunio Atodol sydd yn rhoi arweiniad mwy manwl ar sut i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, yn mynd tu hwnt i ofynion y polisi cenedlaethol a NCT (TAN) 20.
- Mae rôl y Cyngor fel awdurdod cynllunio yn ymwneud ac asesu tystiolaeth a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio yng nghyd-destun gofynion y CDLl ar y cyd (ac unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill) - nid paratoi asesiadau ac ati ar ran ymgeisydd.
- O safbwynt ystyriaeth o'r iaith Gymraeg gyda cheisiadau cynllunio mae trefniadau wedi eu sefydlu sydd yn cynnwys mewnbwn arbenigol Uned Iaith y Cyngor.
- Mae'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio yn unol â'r gofyn statudol, yn monitro'r CDLl ar y cyd ac yn paratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol ar gyfer cyfres o ddangosyddion sydd yn cynnwys rhai yn ymwneud a'r iaith Gymraeg.
- Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cynnwys asesiad o effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o'r broses baratoi, ac yn cynnwys adolygiad o'r holl bolisïau cynllunio perthnasol, gan ddarparu fframwaith fonitro newydd a Chanllawiau Cynllunio Atodol newydd.
- Gyda'r ymgynghoriadau ac ymgysylltu, yn cynnwys adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, fydd yn digwydd fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, bydd cyfle i bob Aelod roi mewnbwn.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Cyn ymateb i'r materion sydd angen eu craffu, credir ei fod yn hanfodol i egluro'r cyd-destun statudol, y sefyllfa polisi cenedlaethol a pholisi lleol sydd yn berthnasol i'r maes cynllunio ac ystyriaeth o'r iaith Gymraeg. Bydd y rhan yma o'r adroddiad wedyn yn egluro'r cyd-destun ar gyfer sut mae'r Cyngor yn gweithredu'r polisïau perthnasol gan hefyd gyfarch y materion sydd angen eu craffu.

### <u>Y CYD-DESTUN STATUDOL A'R CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO</u>

### Fframwaith a gofynion statudol

4.2 Mae'r broses gynllunio yn gweithredu o fewn fframwaith statudol sydd yn cynnwys tair haen sef deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth ac yna'r polisïau a'r canllawiau cynllunio perthnasol. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn cynnwys Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, gyda'r ddeddfwriaeth sylfaenol arall yn cynnwys Deddf

Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 a Deddf Cynllunio 2008.

4.3 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cyfeirio'n benodol at yr iaith Gymraeg gan nodi'r angen i roi unrhyw ystyriaeth berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg, lle mae'n faterol i'r cais. Ar y pryd, roedd hyn yn codi proffil yr iaith Gymraeg o safbwynt y fframwaith statudol, ond rhaid cofio bod yr iaith yn ystyriaeth gynllunio beth bynnag, cyn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

4.4 O safbwynt gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio, mae adran 38(6) o'r Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol yn datgan fod yn rhaid gwneud penderfyniadau yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dweud fel arall. Hwn yw'r prawf statudol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio, a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn) yw'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd. Mae tair haen o gynlluniau datblygu yng Nghymru sydd yn cynnwys ar lefel genedlaethol Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, ar lefel rhanbarthol Cynllun Datblygu Strategol ( heb ei fabwysiadu) a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn) ar gyfer ardal awdurdod cynllunio lleol Gwynedd.

**Polisi Cynllunio Cenedlaethol**

4.5 Mae'r system gynllunio yn rheoli datblygu a defnydd tir er budd y cyhoedd, gan roi blaenoriaeth i fudd cyfunol tymor hir, gan gyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir. Fe'i hategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs), Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru a llythyrau egluro polisi. Hyn yw'r fframwaith cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r rhan isod yn amlygu'r arweiniad a geir o fewn PCC a NCT (TAN) 20 ar gyfer yr iaith Gymraeg:

**Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 12 Chwefror 2024)** –

4.6 Mae paragraffau 3.25 i 3.29 yn cyfeirio tuag at 'Y Gymraeg a Chreu Lleoedd'. Y prif faterion mae'n ei amlygu yw:

- Dylai'r system gynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei defnyddio a'r nod llesiant y Gymraeg sy'n Ffynnu.
- Rhaid ystyried effeithiau tebygol y cynllun datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd.
- Dylid ceisio sicrhau dosbarthiad a datblygiadau gam wrth gam sy'n ystyried gallu'r ardal neu'r gymuned i ganiatáu'r datblygiad heb gael effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg.
- Dylai Cynllun Datblygu gynnwys datganiad ar sut mae ystyriaeth wedi ei roi i anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun a sut mae unrhyw bolisïau yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisïau eraill.
- Gall ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gael sylw gan y sawl sydd yn penderfynu cais cyn belled â'u bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio.

- Ni ddylai polisïau a phenderfyniadau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion yn seiliedig ar eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli daliadaeth tai ar sail ieithyddol.
- Os bydd angen, gellir cynnal asesiadau o'r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr na ddynodwyd mewn cynllun datblygu sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd arbennig i'r iaith. Dylai unrhyw ardaloedd o'r fath fod wedi'u diffinio'n glir yn y cynllun datblygu.

**Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 Cynllunio a'r Gymraeg (Hydref 2017)**

4.7 Mae Pennod 2 o fewn NCT (TAN) 20 yn cyfeirio tuag at Gynlluniau Datblygu Lleol a'r Gymraeg: Nodyn cyngor technegol (TAN) 20: cynllunio a'r Gymraeg | LLYW.CYMRU

- Mae'n amlygu'r angen i ymgynghori ar gyfer materion ieithyddol o fewn ardal y Cynllun gan adnabod unrhyw waith ychwanegol ar gyfer casglu sail tystiolaeth am y Gymraeg.
- Y mecanwaith ar gyfer ystyried y Gymraeg o safbwynt ei berthnasedd i ddefnydd tir yw'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) y Cynllun a fydd yn ystyried effeithiau tebygol ar ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae paragraff 2.5.2 yn datgan gall strategaeth y Cynllun i gefnogi'r iaith gynnwys:
  - hyrwyddo treftadaeth a diwylliant lleol;
  - cynllunio gwasgariad a maint datblygiadau i helpu cymunedau i fod yn gynaliadwy;
  - cyflwyno datblygiadau tai a chyflogaeth strategol fesul cam;
  - nodi ardaloedd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol, rhaid dangos y rhain ar fap cynigion;
  - cyfeirio safleoedd strategol i gymunedau lle ceir tystiolaeth sy'n awgrymu y cânt effaith debygol bositif ar y defnydd o'r Gymraeg; a
  - datblygu mesurau lliniaru os bydd effaith ar y Gymraeg yn debygol o fod yn negyddol.
- Mae paragraff 2.6.4 yn datgan rhaid i bolisïau cynllunio beidio â cheisio rheoli pwy sy'n byw mewn tŷ ar sail ieithyddol.
- Dylid nodi mesurau lliniaru i leihau neu ddiddymu effeithiau negyddol posib yn sgil datblygiad. Gall mesurau lliniaru gynnwys cyflwyno polisïau datblygu fesul cam wrth gam, tai fforddiadwy digonol, neilltuo safleoedd cyfan o dai fforddiadwy i ateb gofynion lleol a darparu cyfleoedd gwaith a seilwaith cymdeithasol i gynnal y cymunedau lleol.
- Gellir cynnwys dangosyddion mewn cysylltiad â'r mesurau lliniaru sydd yn y cynllun. Rhaid i fesurau lliniaru bod yn dderbyniol o safbwynt cynllunio ac yn ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad gydymffurfio â phob cyfraith gymwys.
- Dylid ymgynghori efo'r Comisiynydd y Gymraeg wrth baratoi'r Cynllun.

4.8 Mae Pennod 3 o NCT (TAN) 20 yn cyfeirio tuag at faterion Rheoli Datblygu, a sut dylid rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg yn y broses o ddelio gyda ceisiadau cynllunio. Credir y dylid ystyried y materion canlynol o'r rhan yma sydd hefyd yn gallu dylanwadu ar y Cynllun Datblygu sef:

- Ni ddylid fel arfer cynnal asesiad o effaith ceisiadau cynllunio ar y Gymraeg gan y byddai hynny'n dyblygu gwaith yr AoG a phrosesau dewis safleoedd y Cynllun Datblygu Lleol.
    - Yr unig eithriad i hyn yw cais am ddatblygiad mawr ar safle ar hap o fewn ardal wedi ei ddiffinio fel un ieithyddol sensitif neu arwyddocaol yna gellid cynnal asesiad o effaith debygol y datblygiad ar y Gymraeg.
    - Datblygiad mawr i bwrpas hyn yw 10 neu fwy o unedau preswyl neu ddatblygiad dros 1,000 metr sgwâr neu 1 hectar er caiff Awdurdod Cynllunio Lleol bennu ei ddiffiniad ei hun yn y Cynllun Datblygu Lleol yn seiliedig ar dystiolaeth.
    - Dylid ystyried yn ofalus ydy hi'n llesol gofyn am asesiad o ddatblygiadau cyflogaeth, manwerthu neu fasnachol.
    - Yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd yn gyfrifol am gynnal unrhyw asesiad ac am ffurf yr asesiad.

4.9 Mae Pennod 4 o TAN 20 yn cyfeirio tuag at Arwyddion a Hysbysebion gan ddatgan:

- Gall polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol hybu darparu arwyddion dwyieithog.
- Gellid hefyd annog pobl i gadw enwau traddodiadol Cymraeg ar gyfer datblygiadau a strydoedd newydd.

**Polisi Cynllunio Lleol - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026**

4.10 Mae'r canlynol yn amlygu'r ystyriaeth gafodd ei roi i'r iaith Gymraeg yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd presennol:

- <u>Sail Tystiolaeth – fel rhan o'r sail tystiolaeth fe baratowyd y dogfennau canlynol</u>:
    - PT.019 Papur Testun 10 Iaith Gymraeg a Diwylliant
    - PT.020 Papur Testun 10A Proffil Ieithyddol Gwynedd
    - PT.021 Papur Testun 10B Proffil Ieithyddol Ynys Môn
    - DC.014 Arolwg Tai a'r Iaith Gymraeg
- <u>Asesiadau – ar gyfer asesu effaith y Cynllun fe ddarparwyd:</u>
    - CDLL.007 Arfarniad Cynaliadwyedd (Mawrth 2016) (yr iaith Gymraeg yn un o Amcanion o fewn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd)
    - CDLL.011 Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (2013)
    - CDLL.012 Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (2015)
    - CDLL.013 Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Mawrth 2016)
- <u>Ymgynghori ar y Cynllun</u> – trwy'r holl gamau statudol o baratoi'r Cynllun fe ymgynghorwyd efo nifer helaeth o Rhanddeiliaid gan gynnwys Comisiynydd yr Iaith.
- <u>Ardal Sensitifrwydd / Arwyddocâd ieithyddol</u> - Nid yw'r Cynllun yn nodi ardaloedd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol ar y map cynigion gan fod y Cynllun wedi cael ei baratoi cyn i hyn ddod yn ofynnol yn y PCC a NCT (TAN) 20 presennol. Fodd bynnag mae'r canlynol yn amlygu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun:
    - Mae rhan o Weledigaeth y Cynllun yn datgan bydd ardal y Cynllun yn "**lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o Gymunedau**"

    - Mae Amcan Strategol SO1 yn datgan bydd y Cynllun yn "**Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei ddefnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned**".
    - Mae Strategaeth y Cynllun ym mhennod 5 yn cyfeirio tuag at yr iaith Gymraeg ac o ystyried pwysigrwydd yr iaith o fewn ardal y Cynllun yn datgan "**Felly ystyrir ei bod yn angenrheidiol i'r Cynllun gynnwys polisi penodol i ddweud am yr amgylchiadau lle bydd y Cynghorau angen rhoi ystyriaeth i ardrawiad datblygiad ar yr iaith Gymraeg a diwylliant. Yn ogystal, hyrwyddir diogelu a gwella'r iaith o fewn ardal y Cynllun drwy wahanol bolisïau yn y Cynllun. Mae'r polisïau'n hwyluso'r math o ddatblygiad sy'n gallu cyfrannu i greu'r amgylchiadau cywir i gyfrannu at gynnal a chreu cymunedau Cymraeg eu hiaith, e.e. cymysgedd o dai daliadaeth a math cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol."**
- <u>Polisi Strategol PS 1 Yr iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig</u> – mae'r polisi yma yn gosod y cyd-destun ar gyfer asesu'r effaith y gallai cynigion ei chael ar yr iaith a'r diwylliant (gweler copi o'r Polisi yn Atodiad 1 i'r adroddiad yma)
    - Mae'r Polisi yn gosod allan trothwyon ar gyfer gofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg ar gyfer datblygiadau raddfa fawr ar safleoedd ar hap i dai a llif arwyddocaol o weithlu i ddatblygiadau cyflogaeth.
    - Ceir trothwyon ar gyfer Datganiad ieithyddol sef:
        - Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a /neu efo arwynebedd o 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
        - Datblygiad preswyl sydd un ai ar ben ei hun neu yn gronnol yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle; neu
        - Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd hap nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a galw am dai.
    - Ceir maen prawf sydd yn datgan caiff cynigion a fyddai'n achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad ellir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol.
    - Yn ogystal ceir meini prawf yn gofyn am gynllun arwyddion dwyieithog a disgwyliad y bydd enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio.
    - Paratowyd Canllaw Cynllunio Atodol i gyd fynd efo Polisi Strategol PS 1 sef 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy'. Mae hwn yn rhoi arweiniad ar gyfer gweithredu Polisi PS 1 gan gynnwys methodoleg ar gyfer paratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg a Datganiad Iaith Gymraeg. Gellir gweld copi o'r Canllaw yma yn y linc ganlynol - [Canllaw-Cynllunio-Atodol-Cynnal-a-Chreu-Cymunedau-Nodedig-a-Chynaliadwy-Gorff-2019.pdf (llyw.cymru)]
- <u>Datblygiadau tai ar hap</u>. Pe byddai safle ar hap a ystyrir yn arwyddocaol yn cael ei gyflwyno'n annisgwyl, byddai polisïau'r Cynllun yn darparu'r sail i arfer y rheolaethau angenrheidiol fel datblygu cam wrth gam, fel er enghraifft polisi PS 1 mewn ymateb i bryderon ynglŷn ag effeithiau posibl ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig. Rhaid cofio nad oes yna unrhyw safle strategol tai wedi ei adnabod yn y Cynllun ble efallai buasai'n briodol cael polisi datblygu cam wrth gam.
- <u>Mae Fframwaith Monitro'r Cynllun</u> yn cynnwys dangosyddion sydd yn ymwneud a'r iaith Gymraeg.

- Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol sydd yn cael ei baratoi yn ymateb i'r fframwaith monitro o fewn y Cynllun. Mae'r fframwaith monitro yn cynnwys dangosyddion am yr iaith Gymraeg.

4.11 Fel y gwelir o'r uchod mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn cyfarch y materion ieithyddol a amlygir o fewn PCC a TAN 20 ac yn mynd tu hwnt iddynt. Yn wir mae'r trothwyon ar gyfer Asesiad Effaith Iaith Gymraeg neu Ddatganiad Iaith Gymraeg yn mynd yn bellach na'r hyn a geir o fewn y Polisi cenedlaethol ar NCT 20 (TAN). Mae Polisi PS 1 yn berthnasol i holl ardal y Cynllun ac felly er nad yw'r Cynllun yn nodi ardaloedd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol, mae'n amlwg fod hyn yn berthnasol i holl ardal y Cynllun.

**Cynllun Datblygu Lleol newydd (ardal awdurdod cynllunio Lleol Gwynedd**

4.12 Mae'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi dechrau ac mae'r Cynllun wedi ei gynnwys fel un o'r blaenoriaethau, dan thema Gwynedd Werdd yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 . O ran materion ieithyddol mi fydd yr arweiniad o fewn PCC a NCT 20 (TAN) yn cael ei ddilyn ynghyd a chasglu sail tystiolaeth berthnasol. Mi fydd cyfle yn y broses o baratoi'r Cynllun newydd i ail edrych ar bolisïau'r Cynllun presennol gan gynnwys wrth gwrs yr ystyriaeth a roddir i'r iaith Gymraeg gyda cheisiadau cynllunio.

**Cyfarwyddyd Erthygl 4**

4.13 Roedd y diwygiadau a gynhaliwyd i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987[1] er creu tri dosbarth defnydd newydd (dosbarth defnydd C3: Prif gartref, C5: Cartref Eilaidd ac C6: Llety gosod tymor byr) ynghyd a diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995[2] yn caniatáu newidiadau digyfyngiad rhwng y 3 dosbarth defnydd newydd. Mae Cyngor Gwynedd wedi dilyn y camau priodol er gosod Cyfarwyddyd Erthygl 4, sydd yn diddymu rhai o'r hawliau i newid rhwng y dosbarthiadau defnydd heb dderbyn caniatâd cynllunio. Mae'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol ers 1 Medi 2024 o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd, a nodir fod y gwaith yma hefyd wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor dan thema Gwynedd Glyd.

4.14 Yn unol â'r gofynion yn gysylltiedig â chyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, roedd yn ofynnol casglu tystiolaeth a oedd yn cefnogi'r amgylchiadau eithriadol er cyfiawnhau gweithredu'r Cyfarwyddyd. Bu gosod Rhybudd Cyfarwydd Erthygl 4 ar 2 Awst 2023 ynghyd a chynnal ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos.

4.15 Ymysg yr ystyriaethau a roddwyd er cyfiawnhau cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (y Papur Cyfiawnhad) oedd ystyried effaith y ddarpariaeth o lety gwyliau tymor byr ac ail gartrefi ar gymunedau Gwynedd, gan gynnwys y farchnad dai, gwead cymdeithasol a'r iaith Gymraeg.

4.16 Un o brif amcanion gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yw ceisio gwarchod y stoc dai presennol a thrwy hynny sicrhau fod yna ddarpariaeth ddigonol o dai ar gael i ddiwallu anghenion lleol. Yn ogystal â sicrhau darpariaeth o dai i ddiwallu anghenion lleol, sgil effaith hynny yw ceisio sicrhau fod yna boblogaeth sefydlog yn

[1] Gorchymyn Cynllunio gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel a ddiwygiwyd)
[2] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel a ddiwygiwyd).

byw yn ein cymunedau i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau, a thrwy hynny gobeithir y bydd yn cyfrannu tuag at ffyniant y Gymraeg.

4.17 Ynghyd a’r ystyriaeth a roddwyd i’r buddion ieithyddol wrth gyfiawnhau gweithredu ar y cyfarwyddyd Erthygl 4, mae ystyriaeth hefyd wedi ei roddi i’r effaith cysylltiedig. Gofynnwyd cwestiwn penodol yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus ynglŷn â sut fyddai’r Cyfarwyddyd Erthyl 4 yn effeithio ar allu pobl i ddefnyddio’r Gymraeg a statws y Gymraeg. Defnyddiwyd yr ymatebion i ddiweddaru Asesiad Effaith integredig (a oedd yn ystyried effaith y bwriad ar yr iaith Gymraeg).

**Gweithrediad polisïau cynllunio ac ymateb i’r materion i’w craffu.**

**Pa broses sydd yn cael ei ddilyn pan fo datganiad iaith / asesiad effaith ieithyddol yn cael ei gyflwyno?**

4.18 Wrth asesu cais cynllunio, rhaid nodi mai un ystyriaeth gynllunio ymysg nifer o ystyriaethau eraill yw’r iaith Gymraeg. Mae polisi PS 1 yn sefydlu pryd fod angen asesiad neu ddatganiad ieithyddol i gefnogi cais cynllunio a cheir mwy o arweiniad am hynny o fewn y Canllaw Cynllunio Atodol, Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy.

4.19 Mewn amgylchiadau lle mae cais yn cael ei dderbyn heb asesiad neu ddatganiad ac mae graddfa neu natur y datblygiad yn gofyn hynny, bydd y swyddog achos yn gofyn am y wybodaeth gan yr asiant neu’r ymgeisydd. Nid yw’n bosib peidio dilysu cais cynllunio ar y sail nad yw asesiad neu ddatganiad wedi ei gynnwys lle bo angen un, oherwydd y gofynion sydd yn berthnasol gyda’r broses dilysu. Er hynny, mae nifer o geisiadau cynllunio wedi cael eu gwrthod dros y blynyddoedd diwethaf ar sail diffyg ystyriaeth i’r Iaith Cymraeg. Yn ystod cyfnod Ebrill 2023 i Mawrth 2024, cafodd 3 cais cynllunio eu gwrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol amrywiol. Yn yr un cyfnod derbyniwyd 1 Asesiad Ieithyddol a 17 Datganiadau Ieithyddol gyda cheisiadau a benderfynwyd a oedd yn cyfarch y trothwyon o fewn Polisi Cynllunio PS 1.

4.20 Os nad yw’n glir os oes angen asesiad neu ddatganiad iaith Gymraeg, bydd y swyddog achos yn ceisio barn gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio.

4.21 Mae’r angen i baratoi a chyflwyno asesiad neu ddatganiad iaith yn gyfrifoldeb yr asiant neu’r ymgeisydd. Rôl y Cyngor fel awdurdod cynllunio lleol yw asesu ceisiadau cynllunio a'r wybodaeth a gyflwynwyd, ac nid paratoi asesiadau ar ran yr asiant neu’r ymgeisydd.

4.22 Pan dderbynnir asesiad/ddatganiad ieithyddol, mae’r Gwasanaeth Cynllunio yn ymgynghori gyda’r Uned Iaith, ac mae esboniad o rôl yr Uned bellach lawr yn yr adroddiad. Nid yw’r Uned Iaith yn cynnig asesiad o effaith tebygol y datblygiad yn ei gyfanrwydd. Wrth asesu cais, rôl y swyddog achos yw asesu’r datblygiad yn ei gyfanrwydd. Mae’r Swyddog Achos yn asesu’r holl wybodaeth a thystiolaeth yng nghyd-destun y CDLl ar y Cyd ac unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill (sydd yn cynnwys polisïau cenedlaethol), mewn adroddiad cynllunio ar gyfer penderfyniad dirprwyedig neu ar gyfer penderfyniad gan y Pwyllgor Cynllunio. Fe

fydd yr adroddiad yn cynnwys asesiad o unrhyw effaith tebygol yn erbyn gofynion polisi PS 1 a'r cyngor o fewn y CCA. Pe caniateir cais, mae modd gosod amodau cynllunio lle mae cyfiawnhad ac fe all hynny cynnwys mesurau i liniaru effaith y datblygiad ar yr iaith.

**Sut mae cynnwys/safon y datganiadau iaith / asesiadau effaith ieithyddol yn cael ei asesu?**

4.23 Mae adnabod nodweddion y gymuned a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyfywedd yr iaith yn gynnar yn cynnig y cyfle gorau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ystyriaeth deg mewn datblygiadau. Disgwylir i'r unigolyn cymwys fydd yn cynghori'r ymgeisydd i gysylltu â'r swyddogion sydd â chyfrifoldeb dros hybu'r Gymraeg i drafod y mesurau yn ogystal â thrafod gyda'r Swyddog Cynllunio. O ganlyniad i hyn disgwylir i bob asesiad neu ddatganiad iaith roi sylw i ffactorau penodol er mwyn dangos bod ystyriaeth deg wedi ei roi i effeithiau posib y datblygiad ar yr iaith Gymraeg, yn unol gyda'r hyn a nodir yn y canllawiau cynllunio atodol.

4.24 Defnyddir rhestr wirio gan staff yr uned iaith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth, ystadegau a thystiolaeth ddigonol wedi eu cynnwys. Disgwylir gweld data fel ystadegau cyfrifiad y ward a'r ardaloedd cyfagos, y galw am dai lleol a'r llefydd gweigion mewn ysgolion lleol. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Atodiad 2.

4.25 Mae'r asesiad/datganiad ieithyddol yn ddogfen annibynnol felly mae'r Uned Iaith yn disgwyl i'r ymgeisydd gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn y ddogfen fel nad oes angen edrych mewn dogfen arall am y manylion. Os nad oes tystiolaeth ddigonol a chyfredol wedi ei gyflwyno i gyfiawnhau'r effaith a nodir yn yr asesiad nodir hynny yn y sylwadau ar yr asesiad/datganiad.

4.26 Cynhelir cyfarfod bob pythefnos o staff yr Uned Iaith er mwyn cyd-drafod yr asesiadau/datganiadau a cheisio sicrhau bod cysondeb yn y sylwadau a gyflwynir. Mae hyn hefyd yn gyfle i wirio bod ystyriaeth wedi ei roi i ddatblygiadau eraill yn yr ardal dan sylw wrth wirio'r cais.

**Beth yw mewnbwn yr Uned Iaith?**

4.27 Rôl yr Uned Iaith yw cynnig barn wrthrychol ac annibynnol ar gynnwys yr Asesiad neu Ddatganiad Iaith a gyflwynir gan y datblygwr fel rhan o'r cais cynllunio. Nid yw'r uned yn cynnig asesiad o effaith tebygol y datblygiad, yn hytrach edrychir ar y farn a gynigir yn y dogfennau a'r dystiolaeth a gyflwynir i gefnogi'r farn honno.

4.28 Edrychir ar gywirdeb y dystiolaeth, ac os na chredir bod digon o dystiolaeth i gefnogi'r farn a gyflwynir, gellir cynnig argymhellion i'r datblygwr am faterion y dylent eu hystyried a newidiadau y dylid eu gwneud i'r dogfennau er mwyn iddynt allu cynnig asesiad teg o'r effaith tebygol ar y gymuned a'r iaith. Disgwylir gweld unrhyw newidiadau yn cael eu hymgorffori yn y dogfennau erbyn i gais fynd i Bwyllgor.

**Beth sydd mewn lle i sicrhau bod effaith cronnol datblygiadau yn cael ei ystyried?**

4.29 O fewn Atodiad 5 i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fe geir lefel twf dangosol ar gyfer holl Ganolfannau a Phentrefi sydd yn y Cynllun. Mae maen prawf 1(b) o Bolisi PS 1 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) yn cyfeirio tuag at ddatblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronnol yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai dangosol. Cynhelir arolwg tai yn flynyddol i nodi beth sydd wedi digwydd dros y flwyddyn i'r holl safleoedd sydd efo caniatâd cynllunio. Felly wrth ystyried unrhyw gais cynllunio newydd mae effaith gronnol y nifer o unedau sydd wedi ei gwblhau ers 2011 ynghyd a safleoedd yn y banc tir presennol (h.y. safleoedd efo caniatâd cynllunio) yn cael ei asesu i weld os oes angen Datganiad ieithyddol i gefnogi unrhyw gais h.y. os nad yw'r bwriad yn cyrraedd y trothwy lle fod angen Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Gall hyn olygu fod angen cyflwyno datganiad ieithyddol ar gyfer codi dim ond 1 tŷ o fewn Canolfan neu Bentref sydd yn gronnol wedi neu yn gallu cyflawni ei lefel twf dangosol. Mae hyn yn golygu fod trothwyon y Cynllun yn gofyn am ddatganiadau yn llawer is na'r hyn a argymhellir o fewn PCC a TAN 20.

4.30 O fewn y CCA 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' wrth gyfeirio datblygwyr tuag at baratoi Asesiad neu Ddatganiad neu Dystiolaeth Gefnogol pwysleisir ei bod yn hanfodol fod ymgeiswyr yn sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth angenrheidiol am y gymuned, a gwybodaeth polisi cynllunio ac yn defnyddio casgliadau'r asesiad o'r wybodaeth yn wrthrychol i ragweld yr effaith gronnus fwyaf tebygol ar yr iaith Gymraeg. Yn bellach yn Atodiad 7 o'r Canllaw disgwylir y bydd y swyddog cymwys o fewn y Cyngor yn gwirio'r Datganiad ai weld a yw'r dadansoddiadau a'r casgliadau ar sail y wybodaeth gronnus a gyflwynwyd yn rhesymol ai peidio. O fewn Atodiad 8 o'r Canllaw sef y fethodoleg ar gyfer paratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg mae'r cwestiwn ar ddiwedd pob rhan yn cyfeirio tuag at yr effaith gronnus bosib o'r bwriad.

4.31 Ystyrir pob cais yn unigol er mwyn sicrhau bod sylw yn cael ei roi i effaith cronnol datblygiadau. Mae swyddogion cynllunio yn bennaf yn gweithio mewn ardaloedd penodol, sydd yn golygu eu bod yn gyfarwydd hefo hanes cynllunio ardaloedd a cheisiadau eraill sydd heb eu penderfynu ac felly gellir asesu'r effaith cronnol yn haws pan fod angen. Edrychir ar sylwadau sy'n cael eu cyflwyno a threfnir i gael trafodaeth a gwybodaeth bellach os oes angen.

**5. Ymgynghori**

5.1 Mae gofynion statudol gydag ymgynghori a rhoi cyhoeddusrwydd i geisiadau cynllunio. O safbwynt ystyriaethau yn ymwneud a'r iaith Gymraeg mae ymgynghoriad rhwng Gwasanaeth Cynllunio, Gwasanaeth Polisi Cynllunio a'r Uned Iaith ar geisiadau cynllunio.

5.2 Mae'r broses o baratoi CDLl ar y cyd a CCA destun ymgynghoriadau statudol fel y bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

**6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

6.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy. Mae pob adroddiad ar gais cynllunio yn dangos ystyriaeth i'r Ddeddf Lleisiant. Oherwydd cyflwynwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y

Cyd i Lywodraeth Cymru cyn mis Ebrill 2016, nid oedd rhaid iddo gyd-fynd yn uniongyrchol â'r nodau llesiant a amlygwyd yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

6.2 Fodd bynnag, fel rhan o'r archwiliad i'r Cynllun cafodd y fframwaith deddfwriaethol ei ddiweddaru a'r ffyrdd o weithio a amlinellir yn adran 5 y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ei ystyried. Fel ymateb i Bwynt Gweithredu S16/PG41 fe wnaeth y Cyngor ddangos bod y Cynllun yn cyd-fynd â'r nodau llesiant a amlygwyd. Casgliad yr Arolygydd yn ei adroddiad i'r Cynllun oedd "...Yn wir, bydd y Cynllun, fel y'i haddaswyd, yn cyfrannu tuag at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac, yn yr ystyr hon, rydym yn fodlon ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddor drosfwaol o gyflawni datblygu cynaliadwy...".

**A ydych wedi cynnwys trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?**

6.3 Fel rhan o'r broses o benderfynu cais cynllunio mae yn rhaid cwblhau cyfnod ymgynghori statudol sydd yn cynnwys gwybyddu ymgynghorwyr statudol, cynghorau cymuned a thref, cymdogion / tirfeddianwyr cyfagos, aelodau lleol ac fel arfer bydd rhybudd safle yn cael ei arddangos ar dir cyhoeddus yn agos i'r safle. Mae copi o geisiadau cynllunio hefyd ar gael ar wefan y cyngor ac mae sawl ddewis i allu chwilio am geisiadau. Mae copi o unrhyw ddatganiad/asesiad ieithyddol ar gais cynllunio yn ffurfio rhan o'r ffeil cynllunio cyhoeddus ac nid yw'n anghyffredin i'r gwasanaeth derbyn sylwadau ar gynnwys asesiadau a datganiadau ieithyddol. Wrth asesu a phenderfynu mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau sydd yn cael eu derbyn.

**A ydych wedi ystyried cydweithio?**

6.4 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn ffurfio rhan o'r Bwrdd Prosiect Gwarchod Enwau Lleoedd Cynhenid Gwynedd ac felly'n cydweithio ar y bwrdd gyda gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor. Trwy ddefnydd o bolisi PS 1 mae amod cynllunio yn cael ei gosod ar unrhyw ddatblygiadau tai a datblygiadau masnachol newydd i sicrhau enw Cymraeg. Yn ystod 2023/24, gosodwyd amod ar 35 o caniatadau cynllunio sydd yn sicrhau enw Cymraeg ar fusnesau newydd a dros 120 o dai newydd.

6.5 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd wedi bod yn cydweithio gydag Uned Iaith y Cyngor ar waith Y Gymraeg mewn Busnes. Mae nodyn sy'n codi ymwybyddiaeth ac sydd hefyd yn cynnig cyngor yn mynd allan ar ymatebion cyngor ymlaen llaw ac mae nodyn gwybodaeth hefyd ar gael i swyddogion ddefnyddio ar ddyfarniadau cynllunio.

**Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol**?

6.6 Mae parhau i gydweithio a chyfathrebu rhwng adrannau'r Cyngor yn allweddol, a bydd y tystiolaeth o Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

yn cyfrannu tuag at y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd fydd yn cynnwys adolygu'r polisïau cynllunio.

**Sut ydych wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?**

6.7 Mae angen gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, sydd yn rhoi fframwaith polisi cynllunio ar gyfer cwrdd ag anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal a thrigolion am gyfnod o 15 mlynedd.

**Er mwyn sicrhau integreiddio, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?**

6.8 Mae'r broses statudol o ymgynghori ar geisiadau cynllunio, a'r broses o baratoi y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – a'r Cynllun Datblygu Lleol newydd (Gwynedd) yn rhoi ystyriaeth lle bo angen i'r effaith posib ar gyrff cyhoeddus eraill.

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

7.1 Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol gymunedau. Mae'r Cyngor wedi cynnal a rhoi cyhoeddusrwydd i Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn sicrhau bod materion cydraddoldeb wedi cael eu hystyried drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun. Bu'r broses hon yn un ailadroddus er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn hybu cyfle cyfartal ac amrywiaeth ac nad yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw bobl sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 nac yn gwahaniaethu yn eu herbyn.

7.2 Mae yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fel yr amlygir yn rhan 3.6 uchod fel rhan o broses paratoi'r Cynllun fe baratowyd Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg oedd yn edrych ar Strategaeth y Cynllun, y Cynllun Adnau, Polisïau Manwl y Cynllun ac Ardaloedd Twf sef y Canolfannau a Phentrefi Gwasanaeth y Cynllun.

7.3 O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol. Mae'r dyletswydd yma wedi dod ar ôl i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gael ei fabwysiadu.

7.4 Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei baratoi yn unol efo'r dyletswyddau yma.

## 8. Camau Nesaf

8.1 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Cytundeb Cyflawni sydd yn gosod allan amserlen ar gyfer yr holl gamau statudol o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd i Ardal Cynllunio Leol Gwynedd. Rhagwelir bydd y Cynllun newydd yn cael ei fabwysiadu yn Medi / Hydref 2027.

## Gwybodaeth Cefndir

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 Cynllunio a'r Gymraeg (Hydref 2017)
Nodyn cyngor technegol (TAN) 20: cynllunio a'r Gymraeg | LLYW.CYMRU

Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy
Canllaw-Cynllunio-Atodol-Cynnal-a-Chreu-Cymunedau-Nodedig-a-Chynaliadwy-Gorff-2019.pdf (llyw.cymru)

Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol newydd Gwynedd
Cytundeb Cyflawni

## Atodiadau

Atodiad 1 Polisi PS 1 'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig' o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Atodiad 2 Rhestr wirio'r Uned Iaith

## ATODIAD 1 – Polisi PS 1 ‘Yr Iaith Gymraeg a’r Diwylliant Cymreig’ o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

### YR IAITH GYMRAEG A’R DIWYLLIANT CYMREIG

6.1.1 **Cefndir**

- Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynghori y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae defnyddio’r iaith Gymraeg yn rhan o’r ffabrig cymdeithasol, ac os oes, mae’n cael ei ystyried yn briodol cymryd hynny i ystyriaeth wrth lunio polisïau defnydd tir.
- Mae hyrwyddo’r iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig yn un o’r egwyddorion sy’n ganolog i’r Cynllun Integredig Sengl.

**Cyflwyniad**

6.1.2 Mae’r iaith Gymraeg yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd preswylwyr ac ymwelwyr ardal y Cynllun. Yn 2001, roedd 60% a 69% o boblogaeth Ynys Môn a (Sir) Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg. Mae defnydd o’r iaith yn amrywio o le i le yn yr ardal. Mae’r gyfrol gyntaf o wybodaeth am yr iaith Gymraeg o Gyfrifiad 2011 yn dangos lefelau is o siaradwyr Cymraeg yn y ddwy Sir: 57% a 65% ym Môn a Gwynedd, yn y drefn honno.

6.1.3 Lle mae bwriad i ddatblygu, rhaid ystyried gwella a diogelu’r iaith a diwylliant. Mae cynnal cymunedau presennol yn allweddol i hyn. Mae’r Cynllun, ynghyd â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn cynnig nifer o bolisïau, er nad ydynt yn cyfeirio’n benodol at yr iaith Gymraeg, a fydd, yng nghyd â mentrau gan bartneriaid, yn cael effaith bositif. Mae’r strategaeth yn cydnabod bod canran uchel o’r boblogaeth bresennol yn byw mewn aneddleoedd gwledig ac felly mae’n cefnogi cymunedau gwledig a threfol.

6.1.4 Mae’r angen i hyrwyddo economïau lleol iach yn debygol o fod yn bwysig iawn i gynnal cymunedau a chryfhau’r iaith. Mae’r ffordd yma yn darparu cyfleoedd i bobl aros o fewn ardal y Cynllun yn hytrach na mynd i chwilio am waith yn rhywle arall. Mae’r Cynllun yn cynnwys cyfres o bolisïau a fydd yn hyrwyddo’r amcan yma, gan annog cyfleoedd economaidd yn agos i le mae pobl yn byw a fydd yn cael effaith bositif ar fywiogrwydd y gymuned a’r iaith Gymraeg. Yn ychwanegol i hynny disgwylir i unrhyw ddatblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol ddangos dealltwriaeth o gyfansoddiad ieithyddol yr ardal maent yn gwneud cais cynllunio ar ei gyfer a chydnabyddiaeth o statws y Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru. Dylid dangos ymrwymiad i drin y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal. Bydd polisïau yn cynorthwyo i sicrhau bod y lefel gywir a math iawn o alw am gartrefi yn cael ei gyfarch a bod pryd fydd datblygiad yn digwydd yn galluogi iddo ddigwydd heb amharu yn arwyddocaol ar gymeriad y gymuned. Yn ychwanegol bydd polisïau yn anelu i gadw cyfleusterau cymunedol presennol a hyrwyddo cyfleusterau amgen neu gyfleusterau newydd, os yn briodol. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn atgyfnerthu polisïau trwy roi arweiniad am y math o wybodaeth neu asesiad a fydd yn angenrheidiol adeg cais cynllunio er mwyn gallu asesu’r effaith, unrhyw ddifrod posib, a’r angen posib am liniaru a/neu fesurau i hyrwyddo effeithiau positif.

6.1.5 Mae Polisi Strategol PS 1 yn gosod y cyd-destun ar gyfer asesu’r effaith y gallai cynigion ei chael ar yr iaith a’r diwylliant, a hefyd darparu gwybodaeth o ran graddfa a lleoliad datblygiad newydd fel sy’n cael ei fwriadu o fewn y strategaeth aneddleoedd.

**POLISI STRATEGOL PS 1: YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT CYMREIG**

**Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:**

1. **Ofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig yn perthyn i un o'r categorïau canlynol:**
    a. **Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy; neu**
    b. **Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronnol yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 1 - TAI 6; neu**
    c. **Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap du mewn i ffiniau datblygu nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a galw am dai a gofnodir mewn Asesiad Marchnad Tai a ffynonellau tystiolaeth leol berthnasol eraill.**
2. **Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu;**
3. **Wrthod cynigion a fyddai'n achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad allir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith cynllunio priodol;**
4. **Gofyn am Gynllun Arwyddion dwyieithog i ymdrin â holl arwyddion gweithredol yn y parth cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys mewn cais cynllunio gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes;**
5. **Gosod disgwyliad y bydd enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.**

**Eglurhad:**

6.1.6 Bwriedir y bydd yr holl fesurau a ddisgrifir yn fras yn y paragraffau o flaen y Polisi yma yn cefnogi cymunedau a'r iaith Gymraeg. Mae amcanion allweddol y Cynllun yn dangos ymrwymiad i hyrwyddo cymunedau cytbwys, cynaliadwy a nodedig. Mae hyn yn golygu bod y Cynllun yn cynnwys teclynnau polisi i ganiatáu cymunedau lleol newid a thyfu'n gynaliadwy ac i gyfarch anghenion pob aelod o gymunedau. Ceir nifer o bolisïau strategol a manwl a fydd yn rhoi eglurhad am sut fydd cynigion i ddatblygu yn cael eu rheoli. Ar y cyfan mae'r Asesiad Cynaliadwyedd (a gafodd ei ddylanwadu gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol) yn edrych yn bositif ar bolisïau a chynigion y Cynllun ar sail bod datblygiad yn digwydd ar y raddfa briodol ac yn y lleoedd priodol, gan gynnwys mesurau hyrwyddo effeithiau cadarnhaol a mesurau lliniaru effeithiau negyddol.

6.1.7 Fel y gwelir ym maen prawf 1 a 2 ym Mholisi PS 1, er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus adeg cais cynllunio gofynnir am wybodaeth am geisiadau lle gall datblygiad ddigwydd, pe fyddai'n cael caniatâd cynllunio, ar gyflymder neu raddfa sy'n wahanol i'r hyn a ragwelwyd adeg paratoi'r Cynllun. Mae Polisi PS 1 yn atgyfnerthu polisïau perthnasol eraill yn y Cynllun sydd yn disgrifio'r rhagdybiaethau a wnaed, e.e. lefel twf tai fesul anheddle (Polisïau TAI 1 – TAI 6); bod datblygiad tai yn rhoi dewis priodol o dai marchnad a thai fforddiadwy (Polisi TAI 8). Os oes ansicrwydd, dylid gofyn am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i weld os fydd angen Datganiad neu Asesiad. Mae cael arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg ac enwau llefydd ac eiddo Cymraeg yn arwydd clir o gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol. Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynnal a chreu cymunedau nodedig a

chynaliadwy' a Chanllawiau Cynllunio Atodol 'Math a chymysgedd o dai' i roi arweiniad pellach am y mater. Byddant yn egluro'r math a lleoliad datblygiad sy'n debygol o fod yn dderbyniol yn ardal y Cynllun, gan egluro'r ystyriaethau cynllunio sy'n berthnasol. Bydd y CCA 'Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy' yn disgrifio'r arwyddion a ddisgwylir iddynt fod yn ddwyieithog, e.e. arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, hysbysebion, hysbyseb arddangos. Bydd y Datganiad neu'r adroddiad am yr Asesiad yn rhoi cyfle i'r datblygwr egluro ei gais yn fwy manwl ac ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol posib ar y gymuned a'i chydbwysedd ieithyddol. Bydd y CCA, er enghraifft, yn chwilio am dystiolaeth i ddangos bod trafodaeth wedi bod gyda Chynghorau Cymuned, Dinas a Thref a grwpiau cymunedol lleol er mwyn cael gwybodaeth a gofyn am eu barn a bod ystyriaeth wedi rhoi i arolygon am y farchnad tai lleol, a/ neu'r farchnad lafur. Yn ogystal â hynny, byddant yn cyfeirio ymgeisydd at, e.e. gymorth sydd ar gael gan Swyddfa Comisiynydd yr Iaith am ddylunio arwyddion a deunydd marchnata dwyieithog a'r cyngor sydd ar gael i'r sector breifat gan Lywodraeth Cymru/Busnes Cymru ynglŷn â dwyieithrwydd.

**ATODIAD 2 – RHESTR WIRIO'R UNED IAITH**

| | |
|---|---|
| **Rhif y cais** | |
| **Datblygwr:** | |
| **Natur y cais:** | |
| **Dogfen a gyflwynir:** | |
| **Paratowyd gan:** | |
| **Y risg/effaith ieithyddol a adnabyddir gan yr ymgeisydd:** | |
| **Barn gryno yr Uned Iaith:**<br>Cytuno neu Anghytuno bod y ddogfen yn cynnwys dadansoddiad teg o ffactorau allweddol.<br><br>Tystiolaeth i gefnogi'r farn a'r asesiad o effaith.<br><br>Unrhyw newidiadau sydd eu hangen. | |

**Datganiad o bwrpas:**

Rôl yr Uned Iaith yw cynnig barn wrthrychol ac annibynnol ar gynnwys yr Asesiad neu Ddatganiad Iaith a gyflwynir gan y datblygwr fel rhan o'i gais cynllunio. Nid ydym yn cynnig asesiad o effaith tebygol y datblygiad ein hunain, ond yn hytrach yn edrych ar y farn a gynnigir yn y dogfennau a'r dystiolaeth a gyflwynir i gefnogi'r farn honno. Byddwn yn edrych ar gywirdeb y dystiolaeth, ac os ydym yn credu nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r farn a gyflwynir, gallwn gynnig argymhellion i'r datblygwr am faterion y dylent eu hystyried a newidiadau y dylid eu gwneud i'r dogfennau er mwyn iddynt allu cynnig asesiad teg o'r effaith tebygol ar y gymuned a'r iaith. Disgwylir gweld unrhyw newidiadau yn cael eu hymgorffori yn y dogfennau erbyn i gais fynd i Bwyllgor.

Prif faterion y byddwn yn eu hystyried wrth edrych ar gynnwys y dogfennau:

| Materion i'w hystyried/gwirio | X / ✓ | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Darlun ystadegol:**<br>**A yw'r datganiad/asesiad yn cynnwys asesiad digonol o ystadegau'r cyfrifiad ar gyfer yr ardal dan sylw?** | | |
| **Preswyl** | | |
| Nifer a chanran siaradwyr Cymraeg yn y cyfrifiad diweddaraf. | | |
| Newidiadau yn nifer/canran siaradwyr ers y cyfrifiad blaenorol. | | |
| Dadansoddiad yn ôl grwpiau oedran.<br>*e.e. Oes mwy o siaradwyr mewn un grŵp oedran neu ei gilydd? Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am natur yr ardal dan sylw?* | | |
| A yw'r "ardal astudiaeth" yn ddigonol? | | |

| | | |
|---|---|---|
| *Yn ddibynnol ar faint y datblygiad gallai fod angen edrych y tu hwnt i'r ward lle mae'r datblygiad wedi ei leoli ac edrych ar yr ardal ehangach. Hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd trefol.* | | |
| **Masnachol** | | |
| A yw'r datganiad/asesiad yn cynnwys dadansoddiad o broffil cyflogaeth yr ardal?<br>*Sut mae'r datblygiad yn ychwanegu at y cyfleoedd cyflogaeth presennol?*<br>*A yw'n cynnig y math o gyfleoedd sydd eu hangen i gyfoethogi'r farchnad lafur leol ac i annog pobl ifanc i weld cyfleoedd* | | |
| **Natur y datblygiad:** | | |
| **A oes digon o wybodaeth gyffredinol yn y ddogfennaeth am natur y datblygiad a beth yw'r newid y mae'n ei gynrychioli i'r ardal leol?**<br>Maint y datblygiad/ nifer unedau/swyddi (uniongyrchol a anuniongyrchol)<br>. | | |
| | | |
| **Natur y newid posib:** | | |
| Oes tystiolaeth ddigonol o sut mae'n cyfrannu at angen neu alw lleol am dai? o angen ar gyfer datblygiad tai?<br>(ystadegau Tai Teg, Cofrestr Tai y Cyngor)<br>(Cwestiynau Marchnad Dai) | | |
| A yw'r ddogfen y cynnwys gwybodaeth am bris marchnad posib y datblygiad<br>*(a sut mae hyn yn cymharu gyda ffigyrau prisiau marchnad a niferoedd sydd yn cael eu prisio allan o'r farchnad yn lleol)* | | |
| Oes ystyriaeth o effeithiau cronnus ac anuniongyrchol?<br>*Sut mae'r datblygiad yn cyfrannu at ddatblygiadau eraill o fewn yr un ardal (ceisiadau neu wedi ei cymeradwyo) ac unrhyw effaith anuniongyrchol ar bris tai, stoc tai etc* | | |
| Nifer y bobl y gallai'r datblygiad ei ddenu (uchafswm posib yn ogystal a'r canolrif/median)<br>*Proffil oedran posib y trigolion newydd / y "farchnad darged".*<br>*Nifer y plant sydd yn debygol o fod yn y datblygiad.* | | |

| | | |
|---|---|---|
| Oes unrhyw dystiolaeth yng nghynnwys y ddogfen y gallai'r datblygiad ddenu trigolion newydd o du allan i'r ardal leol/Gwynedd/Cymru?<br>*Lleoliad y datblygiad a'r math o ddatblygiadau eraill sydd yn yr ardal gyfagos.*<br><br>*Cofier nad yw lleol yn gyfystyr a siaradwyr Cymraeg. Os yw'r trigolion newydd yn debygol o ddod o'r ardal leol gyfagos, beth mae hynny yn ei olygu o ran newid i broffil demograffig y wardiau lleol?* | | |
| A yw'r ddogfen yn cynnwys tystiolaeth eu bod wedi ystyried effaith y newidiadau yn y boblogaeth ar y gymuned leol?<br>*Nifer o blant allai fynd i'r ysgolion lleol. Cyfleoedd neu gystadleuaeth i fusnesau lleol. (Cwestiynau Seilwaith)* | | |
| **Elfennau gweledol**<br>Oes tystiolaeth bod y datblygwr wedi ystyried pob defnydd posib o'r Gymraeg – y tu hwnt i arwyddion.<br>*(os yn berthnasol i natur y datblygiad) E.e. marchnata/gwefannau/cyfryngau cymdeithasol* | | |
| **Ffactorau Economaidd** | | |
| Oes digon o wybodaeth am sut mae'r datblygiad yn cyfrannu/cyfoethogi yr economi leol?<br>*Math o swyddi. Gwerth uchel. Creu amrywiaeth cyflogaeth.* | | |
| Oes ystyriaeth o'r tebygolrwydd y byddai angen edrych y tu hwnt i'r ardal leol am sgiliau llafur<br>*(ac o ganlyniad effeithio ar yr elfen mewnfudo uchod)* | | |
| Oes ystyriaethau am ddefnydd iaith wrth ddarparu gwasanaethau? Sgiliau iaith gweithwyr? | | |
| Oes ystyriaeth o'r cyfleoedd i fusnesau eraill o fewn y gymuned – cefnogi busnesau lleol? | | |
| | | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 7 Tachwedd 2024 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25 |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen diwygiedig ar gyfer 2024/25 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Medi 2024.

2. Roedd yr eitem ‘Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion’ wedi ei raglennu i’w drafod yn y cyfarfod yma.

3. Yng nghyfarfod cyswllt y Cadeirydd gyda’r Aelod Cabinet Amgylchedd a’r Pennaeth Adran ar 30 Medi 2024, daeth i’r amlwg na fyddai’r dewisiadau strategol yn barod i’w cyflwyno i’r Pwyllgor heddiw. Mae’r eitem yn llithro o’r cyfarfod yma i gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Ionawr 2025. Cyflwynir adroddiad i gyfarfod o’r Gweithgor Polisi Cynllunio ar 22 Tachwedd 2024 cyn ei gyflwyno i’w graffu.

4. Yn sgil hyn, gwnaed cais i’r Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC, os fyddai’n bosib i’r eitem ‘Toiledau Cyhoeddus’ symud o gyfarfod mis Ionawr i’r cyfarfod yma.

5. Derbyniwyd cadarnhad bod modd craffu’r eitem yn y cyfarfod yma ac adroddwyd hyn i gyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 7 Hydref 2024.

6. Cyn cyhoeddi’r rhaglen, derbyniwyd neges ni fyddai’n bosib cyflwyno’r adroddiad i’r cyfarfod yma. Nodwyd y byddai modd cyflwyno adroddiad cynhwysfawr i gyfarfod 20 Mawrth 2025. Byddai craffu’r eitem yr adeg yma yn gyfle i graffu ychwanegu gwerth cyn i’r Cabinet ystyried y ‘Strategaeth Toiledau Cyhoeddus’.

7. Rhaglenwyd yr eitem ‘Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24’ i’w drafod yn y cyfarfod yma. Derbyniwyd cais cyn cyhoeddi’r rhaglen i lithro’r eitem i gyfarfod arall. Gwnaed cais i’r Pwyllgor ystyried ail-raglennu’r eitem i gyfarfod 23 Ionawr 2025.

8. Gweler ynghlwm fel atodiad i’r adroddiad, rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25. Byddai rhaglennu’r eitemau sydd wedi llithro yn unol â’r uchod yn golygu y byddai 4 eitem ar raglen cyfarfodydd 23 Ionawr a 20 Mawrth 2025.

9. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau:**

**(i) ystyried rhaglennu'r eitemau canlynol:**

- **'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24' ar gyfer cyfarfod 23 Ionawr 2025;**
- **'Toiledau Cyhoeddus' ar gyfer cyfarfod 20 Mawrth 2025.**

**(ii) fabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.**

ATODIAD

**BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2024/25**

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **16/5/24** | • Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd |
| | • Clwyf Gwywiad yr Onnen | Mater ar y gofrestr risg |
| | | |
| **12/9/24** | • Ffioedd Parcio | Blaengraffu |
| | • Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Gorchmynion Rheoli Cŵn | Sicrwydd o ran gweithrediad |
| | | |
| **7/11/24** | • Cynllunio a Chymunedau Cymraeg | Sicrwydd o ran gweithrediad |
| | | |
| **23/1/25** | • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn | Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn |
| | • Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn | Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| | • Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion | Rôl i graffu'r Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | | |
| **20/3/25** | • Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Hoff Strategaeth | Rôl i graffu'r Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Torri Gwair a Chynnal Ymylon Ffyrdd Sirol | Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 22 Chwefror 2024 |
| | • Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |

**Ystyried ail-raglennu'r eitemau canlynol –** 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24' a 'Toiledau Cyhoeddus'

**Eitemau i'w rhaglennu yn 2025/26 -** Gwasanaeth Edrychiad Stryd, Clwyf Gwywiad yr Onnen